

## **Cyngor Cymuned Llanelian (294)**

Cofnodion cyfarfod Ionawr 16, 2018 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Dafydd Griffiths, Helen Hughes, John Griffiths, Gordon Hayes, Glenys Jones, Ian Evans, Thomas Jones, Elfyn Hughes, Cyng Richard Griffiths, Cyng Aled Jones

**Ymddiheuriadau:** Hefina Williams, Carol Whitaker

**Yn bresennol:** Carli Evans Thau (Clerc)

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod. Dymunwyd gwellhad buan i Carol Whitaker wedi llawdriniaeth diweddar.

### **2 Datgan Diddordeb**

Thomas Jones – Cais Cymdeithas y Leinws am gefnogaeth ariannol.

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Thomas Jones, eilio Gordon Hayes.

### **4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

#### **4.1 Arolwg Tai**

Daw gwybodaeth bod yr arolwg yn mynd yn ei flaen. Bydd llythyrau yn cael eu hanfon allan i drigolion yr ardal heddiw, gyda prynhwn agored i'w gynnal yn y neuadd ddydd Iau Ionawr 25 3-6.30 o'r gloch. Daw cais i'r Cyngor dalu am logi'r neuadd. Cytuno nad oedd cefnogaeth ariannol wedi ei grybwyll nes hyn ac nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa i wneud hynnu.

#### **4.2 Lon yr Ysgol**

Fe ofynnodd Elfyn Hughes os oed unrhyw wirionedd bod CSYM am gau ysgolion cynradd y cylch ac efallai dyma pan nad oeddent yn gefnogol i ddiogelu'r lon. Os yw dyfodol yr ysgol wedi ei ddiogelu, byddai budd edrych ar ddatblygu maes parcio pwrpasol i staff yr ysgol. Mae ysgolion Penysarn a Rhosybol eisioes yn cydweithio ac ar hyn o bryd yn rhannu prifathrawes. Cafwyd wybod bod adolygiad ysgolion cynradd y cylch i'w gynnal gan CSYM yn fuan. Y clerch i gysylltu a chadarnhau pa bryd bydd yr adolygiad yma yn cymryd lle. Cytuno hefyd cysylltu a John Owen Tanrallt i weld a fyddai mewn egwyddor yn gwerthu darn o dir i greu maes parcio ger giat yr ysgol.

#### **4.3 Lon Tyddyn Waen**

Mae'r clerch wedi ysgrifennu at, a sgwrsio gyda rheolwyr Carelink a Chymorth Llaw ynglŷn a'r broblem gor-yrru. Mae'r ddau gwmni wedi siarad a'u staff, er nad oes gan Caerlink gleinetiaid ar Lon Tyddyn Waen. Mae'r clerch hefyd wedi sgwrsio gyda'r heddlu ac maent yn bwriadu ymweld a'r ardal yn reolaidd er mwyn monitro'r sefyllfa.

#### **4.4 Giat y Fynwent**

Mae tri pris wedi ei dderbyn erbyn hyn am y gwaith i baratoi adroddiad a chyflwyno cais i gael trin y giat/gosod giat newydd. Cytuno derbyn y pris isaf sef Hafod Planning Consultants. Cynnig Ian Evans, eilio John Griffiths, pawb yn gytun. Y clerch i gysylltu a threfnu cyfarfod ar y safle.

#### **4.5 Cerbydau Fferm**

Cafwyd ddiweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn a thrwyddedu a monitro'r gwaith. Cafwyd ebost gan Steven Jones (CSYM) yn gofyn a fyddai trigolion yn cysylltu yn unigol gyda'u cwynion. Roedd yr aelodau yn ddig gyda hyn – beth felly yw pwrpas Cyngor Cymuned os nad i godi ymwybyddiaeth o bryderion lleol? Cytuno cynabod yr ebyst a diolch am y wybodaeth ond nodi bod y Cyngor yn parhau i gadw golwg.

### **5 Panel Adolygiad Annibynnol**

Daw ebost gan Un Llais CYmru yn gofyn am ymatebion cynhorau tref a chymuned i'r arolwg fel bod posib iddynt lunio eu hymateb hwytha. Trafodwyd y pedair cwestiwn yn ei dro. Diolchwyd i'r clerch am baratoi siart yn dangos holl gyfifoldebau'r cyngor ar hyn o bryd. Cytuno byddai cryfhau cyfathrebiad gyda'r gymuned o fudd, yn ogystal a chydweithrediad gan CSYM. Y clerch a'r cadeirydd i lunio ymateb gan gynnwys y siart.

## **6** **Caeau Chwarae**

Nodwyd bod yr adroddiadau diweddaraf wedi eu derbyn gan Medwyn Owen. Mae'r hyn oedd angen ei wneud ar frys wedi ei wneud yn barod. Nodwyd bod y sleid ym Mharc Lon Tyddyn Waen yn hel dwr, cydnabyddwyd mai hwn oedd yr eitem nesaf i'w newid pan fyddai arian ar gael.

## **7** **Llithrfa**

Mae CSYM wedi cytuno talu hanner gost y faner ar gyfer y tymor nesaf. Bydd cynllun tebyg yn cael ei gynnal eto eleni gyda'r un nifer o oriadau ar gael am yr un gost. Nid yw CSYM wedi hawlio eu harian tuag at gostau cyflogi warden hyd yma.

## **8** **Cynllunio**

### **8.1** **Ceisiadau** – roedd un cais i'w ystyried:

- Tremarfor, Llaneilian (24C165D) – dim sylw

### **8.2** **Penderfyniadau** – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn:

Dim gwybodaeth.

## **9** **Materion Ariannol**

### **9.1** **Taliadau**

£90.00 J Roberts (archwiliad)

£6694.14 R Edwards (cynnal a chadw – mynwent, llwybrau a chaeau chwarae)

£500.00 Cyngor Tref Amlwch (Partneriaeth Cyngorau Gogledd Mon)

£258.18 Costau Clerc Hydref- Rhagfyr

£272.03 Cyflog Clerc – Rhagfyr

Esboniodd y clerc bod £1500 wedi ei gymeradwyo i'r chwe cyngor gan Horizon er mwyn eu cynorthwyo a chydabod y gwaith ychwanegol sydd yn sgil Wylfa Newydd. Mae'r chwe cyngor wedi cytuno talu £500 yr un i fewn i gronfa ganolig er mwyn cydweithio a chynrychioli'r cymunedau ar y cyd.

Daw llythyr gan John Roberts (archwiliwr mewnol) yn nodi ei fod yn ymddeol. Roedd yn argymhell y byddai Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn gwneud y gwaith. Cytuno dylai'r clerc gysylltu a Luned Fon Jones, pennaeth yr ardan i'w gwahodd i ymgymryd a'r gwaith. Cynnig Thomas Jones, eilio Elfyn Hughes.

### **9.2** **Ceisiadau am Arian**

Roedd dau gais newydd am arian sef Dawns i Bawb a Changen Urdd Mon. Cytuno peidio eu cefnogi gan eu bod yn fudiadau canolig. Daw gwybodaeth pellach gan Gymdeithas y Leinws ynglŷn ag amseru a lleoli eu cyfarfodydd. Cytuno talu £50 i'r grwp. Cynnig Helen Hughes, eilio Elfyn Hughes.

### **9.3** **Cofrestr Asedau**

Gydag agenda swmpus, cytuno trafod yn y cyfarfod nesaf.

### **9.4** **Cyllideb 2018/19**

Dosbarthwyd gopi o adroddiad chwarterol hyd diwedd Rhagfyr i bawb oedd yn bresennol er gwybodaeth. Dosbarthwyd hefyd argymhelliant y pwyllgor cyllid am gyllideb y Cyngor am y flwyddyn sydd i ddod. Mae peth arian wrth gefn gan y Cyngor ac rhaid cofio hefyd am arian Cronfa Ty Moel Isaf. Y prif wahaniaethau yn y gyllideb oedd talu i'r neuadd am ei logi yn hytrach na chyfraniad blynyddol, a chynyddu'r arian sydd ar gael i gynnal a chadw asedau'r Cyngor. Cytuno yn unfrydol mai £20,628.58 fyddai cyllideb y Cyngor yn 2018/19.

### **9.5** **Priseb 2018/19**

**Yn unol a'r gyllideb uchod, Cytuno yn unfrydol na fyddai codi'r briseb eleni ac y byddai yn aros yn £11,977.41.**

## **10** **Cronfa Ty Moel Isaf**

Dim ddiweddariad heblaw am brosiect giat y fynwent yn datglygu'n araf. Nodwyd bod £75.62 o log wedi ei dderbyn gan Swansea Building Society.

## **11** **Iechyd a Diogelwch**

Dim byd i'w nodi.

## **12** **Wylfa Newydd**

Cafwyd grynodedb gan Dafydd Griffiths o'r tri cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar y cyd gyda cynghorau eraill gogledd Mon. Mae'r bartneriaeth wedi cytuno bod chwe prif them/pwnc sydd angen sylw ac wedi rhannu'r gwaith i grwpiau unigol er mwyn arben amser. Mae disgwyl i pob grwp ffurfio adroddiad byr yn amlinellu'r prif bryderon yn eu maes. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod bod rhai materion yn fwy perthnasol i rhai ardaloedd nac eraill ond mae nifer hefyd yn gyffredinol i'r ardal gyfan. Mae'r bartneriaeth wedi bod yn gweithio gyda arbennigwr cynllunio hyd yma. Gobeithir bydd arbennigwyr eraill yn y cyfarfod nesaf i drafod a datblygu'r datganiad tir cyffredin.

Cafwyd wybod yn y cyfarfod olaf, mewn cyflwyniad gan pennaeth gwastraff a datgomisiynnu'r cwmni, y byddai posibilrwydd i'r gwastraff lefel uwch aros ar y safle am 140 mlynedd. Gobeithir bydd safle arbennigol ar gyfer gwastraff o'r fath wedi ei ddatblygu yn fuan fel bod posib symud y gwastraff i safle pwrpasol. Nid yw'r bartneriaeth yn fodlon a chael gwastraff lefel uwch ar safle Wylfa Newydd yn hir dymor.

Mae'n debyg bod y wybodaeth ynglŷn a gwastraff wedi ei gynnwys yn y dogfennau ymgynghori ond teimlwyd nad oedd y cyhoedd yn ymwybodol o'r ffeithiau ac nad oedd maint y dogfennau a'r swmp o wybodaeth wedi helpu'r sefyllfa.

Nododd Aled Jones bod y bartneriaeth yn edrych ar y posibilrwydd o ymweld a Hinckley yn y dyfodol agos er mwyn gweld dros eu hunain a chwrdd a'r gymuned sydd yng nghanol y datblygiad yno.

## **13** **Gohebiaeth**

**13.1** Bwrdd Iechyd Cymunedol – daw cais gan y bwrdd i ymateb i ymgynghoriad yn ymwneud a chofrestru doctoriaid yng Nghymru. Mae'n debyg bod angen i ddoctoriaid sydd yn gymmwys yn weddill y DU gofrestru eto i gael gweithio yng Nghymru ac mae hyn yn arwain at brinder o ddoctoriaid ble maen eu hangen fwyaf. Cytuno cefnogi'r bwrdd a chynnig bod y llywodraeth yn mabwysiadu opsiwn 3, sef bod unigolion sydd wedi ei cofrestru yng ngweddill y DU hefyd yn gymmwys yng Nghymru ac fel arall.

**13.2** Ymgynghoriad Strategaeth Toiledau – daw cais gan Llywodraeth Cymru am ymateb i ymgynghoriad ar ddatblygu canllawiau i gynghorau sirol allu datblygu eu strategaeth yn ymwneud a darparu toiledau cyhoeddus. Cytuno ymateb yn cadarnhau bod y Cyngor yn gobeithio fod yn rhan o'r drafodaeth ar yr amser priodol. Heb strategaeth yn ei le i gadarnhau fel arall, bydd angen i CSYM gadw'r toiledau ar agor.

**13.3** Canllawiau Cynllunio Atodol – Wylfa Newydd – cytuno cynnwys yr eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.

## **14** **Unrhyw Fater Arall**

**14.1** Nododd Glenys Jones bod y palmant o gyfeiriad Castell tuag at Y Bedol yn culhau ac angen sylw. Cytuno ebostio CSYM i godi ymwybyddiaeth.

**14.2** Nododd Gordon Hayes bod 'man hole' o'r hen deip angen sylw ar hyd yr un darn o lwybr. Cytuno ebostio CSYM i godi ymwybyddiaeth.

**14.3** Roedd Elfyn Hughes am ddiolch i'r adran briffyrdd am ymateb i'r gwyn am y 'man hole' ar Lon Gors ar fyrder, a diolch iddynt hefyd am eu gwaith torri gwair drwy'r haf. Nododd fodd bynnag bod y traeni ger Tai Mwd i lawr Chapel Street dal angen sylw ac yn creu pryder gan fod y tai yn is na'r lon.

**14.4** Cafwyd wybod gan Thomas Jones fod yr arwydd llwybr ger Pen Lon heb ei drwsio.

**14.5** Nodwyd nad oedd ymateb gan yr Henaduriaeth ynglŷn a giat Mynwent Bosra. Nodwyd bod angen i'r clerc ddiweddarau'r arwydd gyda manylion cyswllt.

**14.6** Cafwyd wybod gan Richard Griffiths bod grwp prosiect yn Amlwch yn gobeithio dathlu 250 mlynedd (2/3/1768) ers canfod copr ar y mynydd gyda nifer o weithgareddau drwy'r flwyddyn. Bydd mwy o fanylion i ddod.

**15** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Chwefror 13 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod offen am 21.00.

**Arwyddwyd**  
**Dafydd Griffiths**  
**Cadeirydd**

CET01/2018